OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 288

## Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010

## RHAN VI

Cyllid a Chyfrifon

**Cyllid**

**40.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu i'r Bwrdd CIC ac i'r Cynghorau y cyfryw symiau sydd eu hangen ym marn Gweinidogion Cymru er mwyn i'r Bwrdd CIC a phob un o'r Cynghorau gyflawni eu priod swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, a chaniateir talu'r cyfryw symiau hynny ar y cyfryw adegau ac yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau a bennir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.

(2) Rhaid i'r Bwrdd CIC gyflwyno i Weinidogion Cymru, yn y ffurf ac erbyn y dyddiad a fynnir gan Weinidogion Cymru, pa bynnag amcangyfrifon a fynnir gan Weinidogion Cymru, o wariant disgwyliedig y Bwrdd CIC yn ystod pa bynnag flynyddoedd ariannol a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i bob Cyngor gyflwyno i'r Bwrdd CIC, yn y ffurf ac erbyn y dyddiadau a bennir gan y Bwrdd CIC, pa bynnag amcangyfrifon a fynnir gan y Bwrdd CIC, o wariant disgwyliedig pob Cyngor yn ystod pa bynnag flynyddoedd ariannol a bennir gan y Bwrdd CIC.

(4) Rhaid i'r Bwrdd CIC gadarnhau symiau'r amcangyfrifon a gyflwynir o dan baragraff (3), naill ai gydag addasiadau neu hebddynt neu'n ddarostyngedig i ba bynnag amodau a ystyrir yn briodol gan y Bwrdd CIC, a chaiff y Bwrdd CIC amrywio'r cyfryw gadarnhad neu amodau ar unrhyw adeg, ac argymell symiau o'r fath i Weinidogion Cymru ar gyfer eu talu o dan baragraff (1).

(5) Rhaid i'r Bwrdd CIC a'r Cynghorau beidio â thynnu gwariant uwchlaw'r symiau a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn.

**Cyfrifon**

**41.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd CIC a'r Cynghorau, baratoi a chadw pa bynnag gyfrifon mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol a fynnir gan Weinidogion Cymru, a rhaid i'r cyfryw gyfrifon roi golwg wir a theg ar incwm a gwariant a llifau arian y Bwrdd CIC a'r Cynghorau.

(2) Rhaid i'r Bwrdd CIC a'r Cynghorau, anfon copi o'u priod gyfrifon blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol at Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.